# Y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

## Cofnodion: ELLS(2)-15-06

### Dyddiad y cyfarfod: Dydd Mercher 22 Tachwedd 2006
### Amser y cyfarfod: 9.00am tan 12.30pm
### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

#### Aelodau'r Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Peter Black (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Jeff Cuthbert (Yn bresennol o Eitem 4 ymlaen) | Caerffili |
| Jane Davidson (Gweinidog) | Pontypridd |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Sandy Mewies (Yn bresennol ar gyfer Eitemau 1,2 a 3) | Delyn |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| Owen John Thomas | Canol De Cymru |

#### Swyddogion yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** | **Eitem** |
|---|---|---|
| Vaughan Johnson | Pennaeth Dros Dro'r Is-adran Cyllid Myfyrwyr, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 1 & 2 |
| Steve Marshall | Cyfarwyddwr yr Adran Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 1 & 2 |

| | | |
|---|---|---|
| Peter McAllister | Pennaeth Dysgu, Polisi Dysgu, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 1 & 2 |
| Elizabeth Taylor | Cyfarwyddwr, y Grwp Plant ac Ysgolion, Llywodraeth Cynulliad Cymru | 1 & 2 |

## Eraill yn Bresennol

| **Enw** | **Teitl Swydd** | **Eitem** |
|---|---|---|
| Rachel Pass | Swyddog Datblygu, Sgil Cymru | 4 |
| Lisa Adams | Grwp Transition in Action | 4 |
| Cliff Warwick | Pennaeth Ysgol Arbennig Trinity Fields | 5 |
| Alison Shephard | Ysgol Arbennig Trinity Fields | 5 |
| John Graystone | Prif Weithredwr Fforwm | 6 |
| Sally Elliot | Cadeirydd Rhwydwaith Fforwm | 6 |
| Brian Robinson | Pennaeth Coleg Sir G?/td> | 6 |
| Gaynor Morgan | Coleg Sir G?/td> | 6 |
| Steve Kelshaw | Coleg Sir G?/td> | 6 |
| Karen Robson | Rheolwr Gwasanaethau Anabledd, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC) | 7 |

## Gwasanaeth y Pwyllgorau

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Steve George | Clerc y Pwyllgor |
| Joel Steed | Dirprwy Glerc Dros Dro’r Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau, Dirprwyon a Datgan Buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau’r Pwyllgor a’r cyhoedd i’r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Irene James. Roedd Denise Idris Jones yn dirprwyo ar ei rhan. Roedd Sandy Mewies yn dirprwyo ar ran Jeff Cuthbert o ddechrau’r cyfarfod nes ddiwedd Eitem 3.

1.3 Bydd cofnod gair-am-air o’r cyfarfod ar gael.

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**
**Papurau: ELLS(2)-15-06(p.1)**

2.1 Ymatebodd y Gweinidog i gwestiynau’r Aelodau ynghylch eitemau a oedd yn ymddangos yn ei hadroddiad.

Camau i’w cymryd:

- Eitem 1. Cytunodd y Gweinidog i ddod ag adroddiad i’r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd yn ymdrin ?146;r ymgynghoriad arfaethedig ar y strategaeth genedlaethol ar gyfer cynghori mewn ysgolion.
- Eitem 2. Cytunodd y Gweinidog i roi adroddiad i’r Pwyllgor yn y Flwyddyn Newydd ar ganlyniadau trafodaethau pellach ?146;r sector ar agweddau ariannol manwl y pecyn cymorth ar gyfer myfyrwyr rhan amser.
- Eitem 3. Cytunodd y Gweinidog i roi gwybodaeth fwy manwl i’r Pwyllgor ar gyfnodau sabothol Iaith Gymraeg. Bydd y wybodaeth yn cynnwys y nifer sy’n derbyn hyfforddiant, y ffordd mae’n cael ei ddarparu a lleoliad yr hyfforddiant.
- Eitem 4. Dywedodd y Gweinidog y byddai hi’n ysgrifennu at Aelodau, gan roi gwybodaeth fwy manwl am yr adolygiad annibynnol o fwriad a diben Addysg Bellach. Llywodraeth y Cynulliad a sefydlodd yr adolygiad hwn a bydd Syr Adrian Webb yn cadeirio.
- Eitem 4. Dywedodd y Gweinidog mai ei bwriad oedd rhoi cyflwyniad ar gynnydd yr Adolygiad i’r Pwyllgor yn gynnar yn y flwyddyn newydd. Bydd Syr Adrian Webb yn cyflwyno’i sylwadau cychwynnol ar y pwnc yn yr un cyfarfod.
- Eitem 5. Cytunodd y Pwyllgor i wahodd CLlLC i ymuno ?146;r Gweinidog i roi’r wybodaeth ddiweddaraf am hynt o ran gweithredu adolygiad y Pwyllgor o gludiant i'r ysgol pan fydd yn ystyried y mater ym mis Chwefror.
- Eitem 5. Cytunodd y Gweinidog wrth iddi roi diweddariad ar gynnydd i’r Pwyllgor, y byddai’n ail-ystyried yr argymhellion yng ngoleuni unrhyw bwerau newydd y mae’r Cynulliad wedi’u cael ers i’r argymhellion gael eu gwneud.
- Eitem 6. Cytunodd y Dirprwy Weinidog y byddai Adroddiad nesaf y Gweinidog yn cynnwys eitem ar sut y bydd cefnogaeth bersonol yn cael ei gweithredu. Cytunodd hefyd i ysgrifennu yn egluro sut y penderfynwyd ar y cyllid a ddyrannwyd i’r rhwydweithiau gan gynnwys y fformiwla a ddefnyddiwyd.

**Eitem 3: Rhagolwg ar Is-ddeddfwriaeth**
**Papur: ELLS(2)-15-06(p.2)**

3.1 Nododd y Pwyllgor yr eitemau o is-ddeddfwriaeth i graffu arnynt yn y dyfodol.

**Eitem 4: Adolygiad Polisi AAA - Rhan Tri – Casglu Tystiolaeth**
**Papur: ELLS(2)-13-06(p3)**

4.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan Sgil Cymru a’r Grwp Transitions in Action er mwyn

casglu tystiolaeth ar gyfer rhan tri o’i Adolygiad Polisi o Anghenion Addysg Arbennig.

**Eitem 5: Adolygiad Polisi AAA - Rhan Tri – Casglu Tystiolaeth**
**Papur: ELLS(2)-15-06(p.4)**

5.1 Bu i Jeff Cuthbert ddatgan buddiant fel llywodraethwr Ysgol Arbennig Trinity Fields.

5.2 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Cliff Warwick, Pennaeth Ysgol Arbennig Trinity Fields ac Alison Shephard, Rheolwr Gwasanaethau Cymunedol, Ysgol Arbennig Trinity Fields er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer rhan tri o’i Adolygiad Polisi o Anghenion Addysg Arbennig.

**Eitem 6: Adolygiad Polisi AAA - Rhan Tri – Casglu Tystiolaeth**
**Papers: ELLS(2)-15-06(p.5) ac ELLS(2)-15-06(p.6)**

6.1 Clywodd y Pwyllgor gyflwyniadau gan John Graystone, Prif Weithredwr Fforwm; Sally Elliot Cadeirydd Fforwm; Brian Robinson, Pennaeth Coleg Sir G?a Steve Kelshaw a Gaynor Morgan, hefyd o Goleg Sir G?er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer rhan tri o’i Adolygiad Polisi o Anghenion Addysg Arbennig.

**Eitem 7: Adolygiad Polisi AAA – Rhan Tri – Casglu Tystiolaeth**

7.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Karen Robson, Rheolwr Gwasanaethau Anabledd, Athrofa Prifysgol Cymru Caerdydd (UWIC) er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer rhan tri o’i Adolygiad Polisi o Anghenion Addysg Arbennig.

**Papur i’w Nodi: Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**Papur: ELLS(2)-14-06(mins)**

Nododd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod blaenorol.

**Papur i’w Nodi: Adroddiad Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru**
**Papur: ELLS(2)-15-06(p8)**

Nododd y Pwyllgor y papur.

**Papur i’w Nodi: Dosbarthu Arian ar gyfer Arloesi mewn Ysgolion Bach ac Ysgolion Bach Gwledig 2006-07**
**Papur: ELLS(2)-15-06(p9)**

Nododd y Pwyllgor y papur.